# SL(5)XXX - Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Parhau i Gael Effaith) 2018

## Cefndir a Phwrpas

Effaith adran 14(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yw bod y Ddeddf i ddarfod ar 30 Gorffennaf 2018, oni bai bod gorchymyn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 14(2) sy'n darparu bod y Ddeddf i barhau mewn effaith. Mae'r Gorchymyn hwn yn orchymyn o'r fath ac mae'n darparu bod y Ddeddf i barhau mewn effaith.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Fel y nodwyd yn y Cefndir a Phwrpas, effaith adran 14(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yw bod y Ddeddf i ddarfod ar 30 Gorffennaf 2018, oni bai bod gorchymyn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 14(2) sy'n darparu bod y Ddeddf i barhau mewn effaith. Mae'r Gorchymyn hwn yn orchymyn o'r fath ac mae'n darparu bod y Ddeddf i barhau mewn effaith.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**8 Mawrth 2018**